



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Elin Jones AC  
Llywydd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

21 Ebrill 2020

Annwyl Elin,

### **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym lai na 21 diwrnod o ddyddiad ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn wedi'i amgáu er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth dros dro ar gyfer cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol ac ar gyfer mynediad y cyhoedd a'r wasg i'r cyfarfodydd hyn yn ystod y pandemig COVID-19. At ddibenion y rheoliadau hyn mae'r term awdurdod lleol yn cynnwys prif gynghorau a chynghorau cymuned, gweithrediaeth prif gyngor, awdurdod iechyd porthladd, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Mae hefyd yn cynnwys pwyllgorau, is-bwyllgorau a chydbwyllgorau dau neu ragor o'r cyrff hyn.

Mae'r mesurau a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r pandemig COVID-19 yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol, osgoi teithio nad yw'n hanfodol, a gofyniad i weithio o gartref lle bo modd. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol i gyfarfod yn bersonol mewn swyddfeydd penodedig, i sicrhau bod llawer o gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac i alluogi'r cyhoedd i archwilio dogfennau sy'n gysylltiedig â'r cyfarfodydd, a hynny yn swyddfeydd yr awdurdodau mewn rhai achosion. Mae hyn yn mynd yn groes i'r mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer COVID-19.

Bydd y Rheoliadau yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon, gan barhau i ddilyn yr egwyddor o fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd.

Mae'r Rheoliadau'n ceisio cyflawni hyn drwy, er enghraifft, alluogi awdurdodau i gynnal cyfarfodydd ar sail mynychu o bell, drwy addasu'r gofynion presennol i awdurdodau lleol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gynnal cyfarfodydd blynyddol a chyfarfodydd eraill ar adegau penodol yn 2020, a thrwy ddileu'r gofyniad bod yn rhaid cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth i amryw o ddogfennau gael eu cyhoeddi'n electronig, gan gynnwys hysbysiadau cyhoeddus am gyfarfodydd ac agendâu, gwysiau i'w hanfon at Aelodau yn electronig, a darpariaeth yn ymwneud ag archwilio cofnodion yn dilyn cyfarfodydd.

Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau ddod i rym ar 22 Ebrill 2020 er mwyn galluogi awdurdodau lleol i barhau i weithredu. Ni all awdurdodau lleol wneud y newidiadau hyn drwy ddiwygiadau i'w rheolau sefydlog eu hunain nac i reolau lleol eraill gan fod y gofynion ar gyfer cyfarfodydd fel rheol wedi'u nodi'n fanwl mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Heb y newidiadau a nodir yn y Rheoliadau, ni all awdurdodau lleol gynnal unrhyw gyfarfodydd yn ddiogel. Mae hyn yn eu hatal rhag eu hymdrechion hanfodol i ymateb i'r pandemig COVID-19. Bydd y trefniadau hyn yn parhau mewn grym ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir cyn 1 Mai 2021.

O ystyried yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19, ystyrir bod peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod yn angenrheidiol yn yr achos hwn ac y gellir cyfiawnhau hynny.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad arnynt, ond mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU a ac â'r cyrff sy'n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru.

Fel y dywedir uchod, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i lunio ac mae wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno gyda'r Rheoliadau.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau; a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



Rebecca Evans AC/AM  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd